**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y BIL AWDURDODAU CYHOEDDUS (TWYLL, GWALLAU AC ADENNILL)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29 sy'n rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Ionawr 2025. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 7 Chwefror 2025 a gellir dod o hyd iddo yn https://senedd.cymru/media/tkjmay3q/lcm-ld16978-w.pdf

3. Mewn ymateb i welliannau'r llywodraeth, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ar 6 Mawrth 2025. https://senedd.wales/media/qrthxdes/slcm-ld17040-w.pdf.

4. Mewn ymateb i welliannau'r llywodraeth, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach ar 7 Mai 2025. https://laiddocuments.senedd.wales/slcm-ld17160-cy.pdf

5. Ar 8 Hydref 2025, cyflwynwyd gwelliannau pellach gan y llywodraeth yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**Amcanion polisi**

6. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn parhau fel y'u nodwyd yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 7 Chwefror 2025 (lcm-ld16978-w.pdf).

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa Cabinet y DU.

8. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, ac mae'n dal yn gywir.

9. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys mewn perthynas â gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Cymalau'r Bil fel y'u cyflwynwyd sy'n bodloni'r Prawf RhS 29 oedd 1, 2, 5, 6, 7 (ac Atodlen 1), 9, 10, 64, 65, 67 a 69 (ac Atodlen 2).

11. Mae mewnosod cymal 37 yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil yn golygu bod rhifau'r cymalau wedi newid o gymal 37 ymlaen.

12. Cymalau'r Bil fel y'u diwygiwyd sy'n bodloni'r Prawf RhS 29 nawr yw 1, 2, 5, 6, 7 (ac Atodlen 1), 9, 10, 65, 66, 68 a 70 (ac Atodlen 2).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

13. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1, 2, 7 (ac Atodlen 1), 9, 64, 65 a 69 (ac Atodlen 2).

14. Mae mewnosod cymal 37 yn y fersiwn ddiweddaraf yn golygu bod Llywodraeth y DU wedi nodi bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1, 2, 7, (ac Atodlen 1) 9, 65, 66 a 70 (Atodlen 2).

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyflwyno gwelliannau ar 8 Ebrill**

15. Cyflwynwyd y gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Hydref 2025 o dan Gyfnod Adrodd y Bil. Mae'r gwelliannau canlynol yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion RhS 29:

**Gwelliannau'r Llywodraeth**

a) **Cymal 9 a Chymal 68**

Cafodd y cymalau hyn eu cynnwys yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol.

**Mae cymal 9 'Incidents etc'** yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â chwynion am y defnydd o bwerau y mae cymal 7 yn eu rhoi i'r Gweinidog yn ystod ymchwiliadau o dan gymal 1 ac, felly, mae'n ymwneud ag awdurdodau datganoledig Cymru fel y'u cynhwysir yng nghymal 1 o'r Bil fel awdurdodau cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y Bil.

**Mae cymal 68 'Disclosure of information etc: interaction with external constraints'** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, sy'n ategu cymalau yn Rhan 1 o'r Bil sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth ac yn berthnasol i awdurdodau datganoledig Cymru.

Mae'r diwygiadau i'r cymalau hyn yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng y Bil hwn a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Mae Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 yn darparu un ddarpariaeth gyffredinol er mwyn osgoi'r angen i gynnwys darpariaethau penodol mewn deddfau unigol. Nid oes angen i gymalau 9 a 68 wneud cyfeiriad penodol mwyach sy'n awdurdodi datgelu a phrosesu gwybodaeth. Ceisiwyd cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 9 a 68 ac rwyf o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd mewn perthynas â'r gwelliant i ddileu'r darpariaethau awdurdodi datgelu a rhannu gwybodaeth.

**b) Cymal 70 ''The Public Sector Fraud Authority'' ac Atodlen 2**

Cafodd y cymal hwn ac Atodlen 2 eu cynnwys yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol. Mae Cymal 70 (69 gynt) ac Atodlen 2 yn rhoi Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) ar sail statudol ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Gweinidog o dan y Bil i PSFA. Mae rhai o'r swyddogaethau hynny (yn enwedig y swyddogaethau craidd) yn arferadwy mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig.

Mae'r gwelliannau hyn yn galluogi sefydlu PSFA fel corff statudol er mwyn caniatáu iddo, o bosibl, uno â chorff arall a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff arall ddiwygio ei ddeddfwriaeth. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cynnwys hyblygrwydd yn y dyfodol i gyflawni'r un nod o ran gwahanu rhwng Ymchwilwyr a Gweinidogion ond nid o reidrwydd sefydlu corff statudol hollol newydd. Mae'r gwelliannau i gymalau sydd eisoes yn ddarostyngedig i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Casgliad**

16. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar ddiogelu arian cyhoeddus rhag twyll a gwallau. Felly, rwyf yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**10 Hydref 2025**